No.

# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Griffiths (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, O. Griffiths, R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) a K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant).

## 451 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 452 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd T.H. Jarvie.

## 453 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

## 454 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

## 455 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNRYCHIOLIADAU A CHWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21 (CGC) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaethau yr adroddiad blynyddol, â'r diben o roi gwybod i Aelodau am berfformiad mewn perthynas â chwynion a chanmoliaeth ynghylch gwasanaethau cymdeithasol a darparu tystiolaeth am yr effaith ar fywydau unigolion a'u teuluoedd. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg dros nifer y materion a godwyd, ymatebolrwydd y gwasanaeth a'r cyfleoedd dysgu o'r adborth gwerthfawr a gafwyd.

Dywedodd y Swyddog bod 43 o gwynion wedi eu derbyn, fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth, 2021, oedd yn is na'r flwyddyn flaenorol pan gafwyd 52 o gwynion. O'r 43 cwyn, roedd 22 ynghylch Gwasanaethau Oedolion, roedd 17 ynghylch Gwasanaethau Plant A Phobl Ifanc a 4 yn gysylltiedig â'r Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu. O'r 43 o gwynion ymchwiliwyd i 4 yng Ngham 1 ac yna yng Ngham 2 hefyd. Yn ystod y cyfnod, cyfeiriwyd 5 cwyn at yr Ombwdsmon ar gyfer ymchwilio iddynt; o'r cwynion hyn, arweiniodd 2 gŵyn at yr Ombwdsmon yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach, ar gyfer 2 gŵyn, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach, ac roedd 1 gŵyn yn gofyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu ymchwiliad Cyfnod 2 a gynhaliwyd.

I gloi, soniodd y Swyddog wrth yr Aelodau am y blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ystod 2021/22, fel a ganlyn:

- Byddai'r Swyddog Cwynion presennol yn ymddeol yn ystod 2021 ar ôl 20 mlynedd o wasanaeth a byddai proses drosglwyddo gefnogol yn cael ei chynnal gyda'r Swyddog Cwynion newydd,
- Byddai gwaith yn parhau gydag ymchwilwyr annibynnol i wella'r amser a gymerir i gwblhau ymchwiliadau Cam 2 drwy adolygu'r cymorth a roddir i ymchwilwyr;
- Byddai gwaith yn parhau gyda rheolwyr a staff i wella'r amser a gymerir i gwblhau cwynion Cam 1 a byddai hyn yn golygu datblygu'r gwaith monitro cwynion wythnosol ymhellach i gynnwys y Penaethiaid Gwasanaeth lle nad oedd yr adran yn debygol o fodloni'r amserlenni dynodedig ar gyfer ymateb. Byddai adroddiadau chwarterol ar gyfer Penaethiaid Gwasanaethau a Rheolwyr Gweithredol hefyd yn cael eu datblygu, a
- Byddai'r Swyddog Cwynion hefyd yn sefydlu gweithdrefn ar gyfer cysylltu â swyddogion ymchwilio i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn o ran amser ac yn dilyn canllawiau'r broses gwyno. Byddai hyn yn cynnwys gofyniad am ddiweddariad misol ar yr oriau a dreuliwyd ar yr ymchwiliad.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, canmolodd sawl Aelod yr adroddiad ac yn arbennig y ffaith fod canmoliaeth wedi ei chynnwys. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o'r gostyngiad yn y niferoedd o gwynion a oedd yn fater o glod i'r staff a oedd yn gweithio o dan amgylchiadau anodd iawn yn sgil y pandemig cenedlaethol.

I gloi, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y canmoliaethau a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn dangynrychiolaeth o faint y gwaith da a wnaed a'r ganmoliaeth a dderbyniwyd gan y Gyfarwyddiaeth. Roedd pob canmoliaeth yn cael ei chydnabod a'i rhannu gyda staff.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD cynnwys Adroddiad Blynyddol Ar Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/21 yn cael ei nodi.

(2) BOD adroddiad diweddaru blynyddol mewn perthynas â chwynion a chanmoliaeth a dderbynnir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau craffu effeithiol ar berfformiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a darparu tystiolaeth am yr effaith ar fywydau defnyddwyr gwasanaeth unigol a'u teuluoedd/gofalwyr.

(2) Sicrhau bod goruchwyliaeth o'r maes pwysig hwn yn cael ei chynnal.

456 ADRODDIAD BLYNYDDOL YMGYSYLLTU Â DINASYDDION (CGC) –

Amlygodd yr Adroddiad Blynyddol (Microsoft SWAY) yr ymgysylltu â dinasyddion a gynhaliwyd ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2020/21, i ganfod barn dinasyddion, eu perthnasau a rhai o staff y Cyngor am y gofal a'r cymorth a ddarparwyd, ac yn benodol y cyfathrebu a’r cymorth yn ystod pandemig COVID 19.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaethau fod y Cyngor yn ymgynghori'n flynyddol, drwy amrywiaeth o ddulliau, gydag unigolion a oedd wedi derbyn gwasanaethau. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth o safon uchel. Tynnodd y Swyddog hefyd sylw'r Aelodau at arfer da presennol yn narpariaeth gwasanaethau’r Cyngor a nodwyd gydol yr adroddiad a meysydd datblygu posibl megis cynyddu lefel yr ymgysylltu ag unigolion mewn lleoliadau gofal preswyl.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, a heb unrhyw gwestiynau’n cael eu codi gan y Pwyllgor, diolchodd yr Is-gadeirydd i swyddogion am adroddiad da a hawdd ei ddarllen.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLIR – DYLID nodi'r agweddau canlynol ar yr adroddiad:

- cyd-destun a strwythur Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu â Dinasyddion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020-21 a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer ymgynghori yn 2021-22,
- y dulliau a ddefnyddir gan y Cyngor wrth gael barn ei ddinasyddion a'u teuluoedd,
- y blaenoriaethau gwella ar gyfer y meysydd gwasanaeth fel y nodwyd gan yr argymhellion yn yr Adroddiad Blynyddol, a
- yr effaith y mae COVID 19 wedi'i chael ar y gwasanaeth drwy brofiadau dinasyddion a gofalwyr, a'r gwydnwch y mae'r gwasanaeth wedi'i ddangos.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad sy'n ymwneud â chanlyniadau ac argymhellion y rhaglen ymgynghori flynyddol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020-21.

457 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST 2021 (CGC) –

Dywedodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg y byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn heriol gyda’r pwysau parhaus ar y gwasanaeth yn weithredol ac yn ariannol oherwydd pandemig COVID-19. Byddai hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd colli incwm. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i ymdrin â rhai o'r materion.

Roedd cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, fel yr oedd pethau ar 31 Awst, 2021, yn dangos cynnydd yn rhai o'r costau ynghlwm wrth wahanol gynlluniau ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor.

Roedd targed arbedion ar gyfer y flwyddyn wedi’i osod ar £135k, ac roedd y gyllideb gyfalaf gyfredol a gymeradwywyd wedi'i gosod ar £5.249m.

Ychwanegodd y Swyddog y bu ychydig o ddirywiad yn y sefyllfa ariannol ers y diweddariad diwethaf gan arwain at drosglwyddiad posibl heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn o £1.15m. Roedd hyn yn cyfateb i amrywiant anffafriol o tua £650k ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc a gorwariant rhagamcanol o £500k yn ymwneud â chyllideb Pecynnau Gofal Cymunedol y Gwasanaeth Oedolion.

Mewn ymateb i gwestiwn yr Is-gadeirydd ynghylch yr amgylchiadau ar gyfer y gorwariant, dywedodd y Swyddog fod y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc yn profi galw sylweddol ac roedd y Cyngor yn rhagweithiol hawlio arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, byddai costau'n parhau i godi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol bresennol yn gwneud yr hinsawdd ariannol yn fwy problemus.

Yn ogystal, tynnodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd sylw at y ffaith bod y Cyngor i fod i dderbyn cronfa adfer gan Lywodraeth Cymru a allai helpu i gefnogi rhai o'r heriau ariannol ychwanegol. Fodd bynnag, roedd hon yn gronfa untro a oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yn unig.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ynglŷn a'r alldro a amcanestynnir ar gyfer 2021/22.

458 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 2IL CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Diben yr adroddiad oedd adrodd ar y cynnydd ar argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith ddiwygiedig ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2021/22.

Dywedodd y Cadeirydd fod tracio argymhelliad y Pwyllgor yn gyfredol gyda'r holl bwyntiau wedi'u labelu fel rhai wedi eu cwblhau.

Derbyniwyd yr holl adroddiadau a ddisgwylid yn ystod Chwarter 2 ac eithrio'r Adolygiad o Leoliadau Blynyddol y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc – Adroddiad Diweddaru Blynyddol a oedd wedi llithro o gyfarfod mis Medi 2021 i gyfarfod mis Tachwedd 2021 ar gais y Cyfarwyddwr.

Cynigiodd y Cadeirydd hefyd, yng ngoleuni'r pwysau parhaus ar adnoddau cydweithwyr y GIG, o ganlyniad i'r pandemig cenedlaethol, y dylid oedi cynnydd gyda'r tri Chyflwyniad GIG sydd ar y gweill, tan Flaenraglen Waith 2022-23.

Yn dilyn cyflwyniad y Cadeirydd, gofynnodd yr Is-gadeirydd i holl Aelodau'r Pwyllgor astudio'r Flaenraglen Waith presennol ac awgrymu unrhyw newidiadau. Cytunodd y Pwyllgor wedyn mai'r cyfle mwyaf priodol i drafod cynnwys y Flaenraglen Waith oedd yn union cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwr yn bresennol, i roi cyngor ar y rhesymau pam yr oedd eitemau yn hanesyddol wedi'u hychwanegu at y Flaenraglen Waith.

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO Blaenraglen Waith Flynyddol ddiweddaraf y pwyllgor sydd wedi ei hatodi yn Atodiad B'r adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

(3) BOD trafodaeth gweithdy yn cael ei threfnu yn union cyn y Cyfarfod Pwyllgor ar 9 Tachwedd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.

(3) Rhoi cyfle i bob parti drafod newidiadau awgrymedig i Flaenraglen Waith y Pwyllgor yn dilyn cyfnod o fyfyrio ar y cynnwys presennol.